



At:

Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch
dynodedig
Sefydliadau Preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfirwyr Cymru
UCM Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a chyrff eraill sydd â diddordeb

23 Medi 2016

Annwyl Gyfaill

CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH

NEWIDIADAU I'W CYNNWYS YN RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR CYMRU AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2017/18

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) 2017 yn cael eu drafftio ar hyn o bryd ac, o'u pasio, byddant yn cefnogi myfirwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n gwneud cwrs addysg uwch. Bydd y rheoliadau'n gymwys i gymorth i fyfirwyr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2017 ('Blwyddyn Academaidd 2017/18').

Mae nifer bach o newidiadau polisi a diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi'u cynnig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2017/18. Manylir ar y rhain yn yr atodiad isod.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rheoliadau neu os hoffech wneud sylw am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, ysgrifennwch at yr Is-adran Addysg Uwch yn y cyfeiriad isod neu'r cyfeiriad e-bost yma: cyllidmyfirwyr@cymru.gsi.gov.uk

Crynodeb o'r newidiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18

Disgwylir i'r gyfres nesaf o reoliadau cymorth i fyfyrwyr ddwyn y teitl Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2017.

Lefel y grantiau a'r benthyciadau

Mae'r pecyn cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr addysg uwch cymwys yng Nghymru wedi'i adolygu i ystyried chwyddiant ac effeithiau eraill. Bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn gymwys i gael digon o gymorth i osgoi gorfod talu ffioedd cyn cychwyn eu hastudiaethau.

1. Cymorth ffioedd

O ran myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac sy'n astudio yng Nghymru yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18:

- £9,000 fydd yr uchafswm o hyd o ran y ffi dysgu y gall sefydliadau yng Nghymru ei godi;
- Bydd cynnydd (3.7%) yn yr uchafswm o ran y benthyciad ffi dysgu – o £3,900 i £4,046 – ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012. Bydd y grant ffi dysgu felly gymaint â hynny'n llai, gan ostwng i £4,954;

O ran myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac sy'n astudio yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18:

- Bydd yr uchafswm ffioedd ar gyfer cyrsiau llawn amser, cyrsiau rhyngosod a chysiau dysgu o bell llawn amser yn cynyddu'n unol â'r chwyddiant a ragwelir (2.8%) i £9,250 pan fo darparwyr a ariennir yn gyhoeddus sydd â chytundeb mynediad OFFA hefyd wedi cael gradd o Gyflawni Disgwyliadau ym Mlwyddyn Un (2016/17) ar y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.
- Bydd yr uchafswm ffioedd ar gyfer cyrsiau llawn amser, cyrsiau rhyngosod a chysiau dysgu o bell llawn amser yn parhau ar lefelau 2016/17 yn 2017/18 (£9,000) pan nad yw darparwyr a ariennir yn gyhoeddus sydd â chytundeb mynediad OFFA wedi cael gradd o Gyflawni Disgwyliadau ym Mlwyddyn Un (2016/17) ar y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.
- Bydd benthyciad ffi ychwanegol ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru y mae eu ffioedd yn cynyddu o ganlyniad i newidiadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ee. caiff cwrs llawn amser sy'n costio £9,250 ei gefnogi gan Grant Ffi Dysgu o £4,954, a Benthyciad Ffi Dysgu o hyd at £4,296.

Student Finance Wales Information Notice (SFWIN 04/2016)

O ran myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac sy'n:

- astudio yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban; £3,465 fydd yr uchafswm cymorth ffi dysgu o hyd, ni fydd yn newid
- caiff yr uchafswm benthyciad ffi dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yng Ngogledd Iwerddon ei gynyddu i £4,030 i adlewyrchu'r cynnydd disgwyledig i'r ffioedd a godir yno.

2. Cymorth cynhaliaeth

O ran myfyrwyr llawn amser a ddechreuodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ac sy'n astudio yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18, cynigir:

- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (grant cynhaliaeth), sy'n dibynnu ar brawf modd, o hyd at £5,161 yn dibynnu ar incwm yr aelwyd
- cynnydd o tua 10% i'r cymorth cynhaliaeth cyffredinol a gynigir (hyd at £5,358 i fyfyrwyr sy'n byw yng nghartref eu rhieni, hyd at £6,922 i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref, a hyd at £9,697 i fyfyrwyr sy'n astudio yn Llundain). Bydd hyn yn golygu mynediad at gyfanswm o hyd at £7,939 o gymorth cynhaliaeth i'r myfyrwyr hynny sydd â'r incwm isaf i'w haelwydydd ac sy'n byw gartref; hyd at £9,503 i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref, a hyd at £12,278 i fyfyrwyr sy'n astudio yn Llundain; yn ogystal â'r canlynol:
- canslo rhan o'r benthyciad cynhaliaeth - hyd at £1,500 - unwaith y bydd ad-daliadau wedi dechrau.

3. Erasmus

Yn hanesyddol, roedd y cynllun hwn yn cael ei hepgor o ffioedd gan sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig; hynny yw, ni fyddai sefydliadau sy'n anfon myfyrwyr yn codi ffi am y cyfnod y byddai'r myfyriwr dramor, ond byddai sefydliadau yn cael eu digolledu am dderbyn myfyrwyr o dramor gan y cyngor cyllido. Ers 2012, mae'r trefniadau hyn wedi newid yng Nghymru a Lloegr, ond nid yn yr Alban na Gogledd Iwerddon, sydd wedi parhau â'r hepgoriad hyd heddiw.

Fodd bynnag, yn awr bydd Llywodraeth yr Alban yn cael gwared ar yr hepgoriad. Golyga hyn y bydd myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ond sy'n cymryd rhan yn y rhaglen astudio benodol hon drwy brifysgol yn yr Alban yn gymwys i dalu ffi am unrhyw flynyddoedd ERASMUS sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2017. Felly, bydd gan fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n gwneud blwyddyn ERASMUS fel rhan o'u cwrs drwy sefydliad addysg uwch yn yr Alban fynediad at grant a benthyciad ffi dysgu nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £1,385 (grant o £675 a benthyciad o £710).

Nid oes disgwyl i'r trefniadau yng Ngogledd Iwerddon newid ym Mlwyddyn Academaidd 2017/18.

4. Dynodiad Cyrsiau

O Flwyddyn Academaidd 2017/18 ymlaen, ni fydd y gwahaniaeth cyfredol rhwng darparwyr cyhoeddus a phreifat mewn perthynas â dynodiad cyrsiau bellach yn gymwys. Bydd darparwr addysg uwch sy'n elusen yng Nghymru sy'n elusen yn gallu cyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac os caiff ei gymeradwyo byddant yn gallu cael eu dynodi'n awtomatig a chodi ffioedd hyd at yr uchafswm. Byddant yn cael eu hadnabod fel 'sefydliad addysgol cydnabyddedig'. Bydd darparwyr na fyddant wedi cael cynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo yn gallu gwneud cais am ddynodiad penodol.

5. Hepgoriad Cymhwyster Lefel Cyfwerth Rhan-amser

Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sydd â Gradd Anrhydedd, neu gyfwerth, yn gymwys i dderbyn cymorth. Fodd bynnag, mae yna gyrsiau sydd wedi'u heithrio o'r rheol hon gan gynnwys rhai cyrsiau ôl-raddedig megis Tystysgrif Addysg i Raddedigion a chysiau israddedig mwy penodol y mae cael Gradd Anrhydedd yn ofyniad ar eu cyfer, er enghraifft: cyrsiau meddygol a deintyddol i raddedigion. Mae rhywfaint o gymorth wedi cael ei gynnig ar gyfer y cyrsiau hyn mewn amgylchiadau penodol ers peth amser. Ym Mlwyddyn Academaidd 2015/16, bu i Loegr ymestyn y rhestr o bynciau a eithrir o'r rheol hon, os cânt eu hastudio'n *rhan amser*.

Yn gynharach yn 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o ehangu cymorth ar gyfer myfyrwyr ar ystod o gyrsiau:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cymorth-ar-gyfer-astudiaethau-ol-radd-graddau-peirianeg-technoleg-neu-gyfrifiadureg>

Ar ôl ystyried yr ymatebion, o flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig pecyn o gymorth rhan-amser i fyfyrwyr cymwys sy'n gwneud cyrsiau lefel gradd anrhydedd rhan amser yn y canlynol:

- Peirianeg, Technoleg a Gyfrifiadureg
- Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth
- Gwyddorau biolegol
- Gwyddorau milfeddygol, amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig
- Gwyddorau corfforol
- Gwyddorau mathemategol
- Cymraeg

Mae'r pecyn rhan-amser sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn cynnwys benthyciadau ffi dysgu ac, yn dibynnu ar ddwyster y cwrs, ystod o grantiau penodol. Mae esboniad llawn o'r pecyn cymorth rhan amser cyfredol ar gael ymhlith ystod o wybodaeth, cyngor a chanllawiau sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. <http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/>

6. Cynllun Benthyciadau i Ôl-raddedigion

Ym mis Mai 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i roi cynllun benthyciadau i ôl-raddedigion ar waith ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Y nod yw y bydd cymorth i ôl-raddedigion ar gael ar gyfer y myfyrwyr hynny ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2017/18. Mae hyn yn amodol ar ddwyn ymlaen y rheoliadau priodol.